# Derbyniadau i Ysgolion Cymunedol 2025/2026

## 1. Cyflwyniad

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer pob ysgol gymunedol a gynhelir yn y fwrdeistref sirol.  Fel yr awdurdod derbyn, y Cyngor sy'n pennu'r meini prawf a ddefnyddir wrth ddyrannu lleoedd mewn ysgolion cymunedol.  Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau derbyn a fydd yn berthnasol yn ystod 2025/2026 ar gyfer: dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd cymunedol; ysgolion cynradd cymunedol; ysgolion uwchradd cymunedol; a'r chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol uwchradd gymunedol.

Ar gyfer ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y. ysgolion ffydd), corff llywodraethu pob ysgol sy'n pennu'r trefniadau derbyn. Gellir cael manylion y trefniadau gan y corff llywodraethu priodol.

Mae'r ddogfen bolisi hon yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ynghyd â'r gweithdrefnau a'r amserlenni ar gyfer derbyn yn ystod blwyddyn ysgol 2025/2026 (atodiadau 1, 2, 3 a 4).  Bydd mwy o fanylion i gynorthwyo rhieni sy'n cyflwyno cais am le mewn ysgol wrth ddewis ysgol i'w plentyn yn y 'Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni 2025/2026' a fydd ar gael i rieni ym mis Hydref 2024, cyn y dyddiad cyflwyno cais. Bydd y llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ysgolion yn y fwrdeistref sirol, gan gynnwys eu niferoedd derbyn, y dalgylchoedd y maent yn eu gwasanaethu gyda'i gilydd a threfniadau eu hysgolion partner. Mae'r llawlyfr hefyd yn cynnwys y trefniadau derbyn cyhoeddedig ar gyfer ysgolion unigol a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y. ysgolion ffydd). O ran hyn, mae 'Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni 2025/2026' yn rhan annatod o'r wybodaeth sydd ar gael i rieni am dderbyniadau ysgolion.

## 2. Cyd-destun

Uchelgais Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw cyflwyno gwasanaeth addysg gynhwysol sy'n dathlu amrywiaeth ac yn parchu hawl pawb i addysg. Mae'r Cyngor yn rhoi mynediad i brofiadau dysgu o safon i bob plentyn a pherson ifanc drwy annog a chefnogi unigolion i wireddu eu huchelgeisiau, cyflawni eu potensial a dod yn aelodau gweithgar a chyfrifol o'r gymdeithas.
Er mwyn diwallu anghenion addysgol plant, mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn

cyflwyno darpariaeth amrywiol, gan gynnwys:

- **addysg feithrin ran-amser, sydd ar gael** ym mhob ysgol gynradd ac ysgol 'bob oed' 3 i 16 oed/3 i 18 oed. Mae dysgu llwyddiannus yn dechrau yn y dosbarth meithrin, lle gall plant dderbyn profiadau cyfoethog mewn amgylchedd diogel;
- **addysg gynradd** mewn ysgolion cynradd ac ysgolion 'pob oed' 3 i 16 oed/3 i 18 oed, (gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol), gan ddarparu addysg eang yn seiliedig ar brofiadau ymarferol a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion yr unigolyn, gan gynnwys meysydd astudio'r cwricwlwm cenedlaethol.
- **addysg uwchradd** mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion 'pob oed' i blant 3 i 16 oed/3 i 18 oed (gan gynnwys mewn ysgol Gymraeg ac ysgol Gatholig), gan osod safonau uchel mewn arholiadau, gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol, ac addysg bersonol a chymdeithasol. Mae gan ddisgyblion ym mhob ysgol fynediad at ystod eang o gyfleoedd cwricwlaidd a'r cwricwlwm cenedlaethol;
- **ysgolion arbennig,** sy'n darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol i ddisgyblion ag anawsterau difrifol a chymhleth. Mae gan yr holl ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae cefnogaeth arbenigol ar gyfer disgyblion oed cynradd ac uwchradd sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol ar gael yn y fwrdeistref sirol.
- **canolfannau cefnogi dysgu,** sydd ar gael mewn sawl ysgol gynradd, uwchradd a rhai 'pob oed' ac sy'n darparu cefnogaeth arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd i ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae trefniadau derbyn y Cyngor ar gyfer ysgolion cymunedol yn sicrhau nad yw gweithdrefnau derbyn yn rhoi mantais neu anfantais annheg i grwpiau drwy ddefnyddio Côd Derbyn Ysgolion Llywodraeth Cymru 005/2013.

## 3. Derbyn i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd cymunedol ac ysgolion 'pob oed' i blant 3 i 16 oed/3 i 18 oed.

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer pob dosbarth meithrin mewn ysgolion cynradd cymunedol a 'phob oed' i blant 3 i 16 oed/3 i 18 oed.

Gall plant gael lle rhan-amser mewn dosbarth meithrin o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu trydydd pen-blwydd. Bydd gofyn i rieni/ofalwyr sydd am gael lle i'w plentyn mewn dosbarth meithrin gyflwyno cais am le. Mae ffurflenni cais ar gael (ac, ar ôl eu llenwi, dylid eu dychwelyd i'r un cyfeiriad) gan y Swyddog Derbyniadau, Tîm Cefnogi Plant a Theuluoedd, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ neu gall rhieni wneud cais ar-lein yn **www.npt.gov.uk** Gall rhieni/gofalwyr wneud cais ar-lein am le yn ysgol y dalgylch neu fynegi dewis am le mewn ysgol arall.

Gall plentyn gael ei dderbyn i ddosbarth meithrin cyn dechrau'r tymor sy'n dilyn ei drydydd pen-blwydd dim ond drwy ymgynghori â'r Swyddog Derbyniadau.
Gall nifer y lleoedd meithrin sydd ar gael fod yn wahanol i nifer derbyn grwpiau blwyddyn amser llawn mewn ysgol (Derbyn).

I blant y mae ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig/Gynllun Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr ALl, sy'n nodi addysg feithrin brif ffrwd mewn ysgol gymunedol, gwarentir lle iddynt yn y lleoliad hwnnw. Mae gan ysgolion ddyletswydd i dderbyn plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig/CDU sydd wedi'u rhoi mewn ysgol gan yr ALl a chaiff y disgyblion hyn eu cyfrif tuag at nifer y disgyblion a dderbynnir, oni bai eu bod yn cael eu rhoi mewn Canolfan Cymorth Dysgu yn yr ysgol.

Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais unigol a dderbynnir.  Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff lleoedd eu dyrannu yn ôl y meini prawf gorymgeisio isod, a restrir yn nhrefn eu blaenoriaeth.

– ***Meini Prawf Gorymgeisio***

a) Plant sy'n derbyn gofal[1], neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu yn Lloegr yn unol ag adran 22 o Ddeddf Plant 1989.

b) Plant sy'n byw yn nalgylch y dosbarth meithrin y cyflwynir cais amdano.

c) Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn a fydd ar gofrestr yr ysgol lle mae'r dosbarth meithrin hwn pan gânt eu derbyn.  Diffinnir "brawd neu chwaer" fel brawd neu chwaer lawn, hanner brawd neu chwaer (h.y. un rhiant a rennir), llysfrodyr neu lyschwiorydd (h.y. plentyn person sy'n cyd-fyw â'r rhiant), brawd neu chwaer maeth neu a fabwysiadwyd. Ym mhob achos, ar adeg cyflwyno cais, rhaid i'r brawd neu'r chwaer fod yn byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn neu'r person ifanc.  Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. Yn achos genedigaethau lluosog,   os nad yw'n bosib cynnig lle i bob plentyn yn y dosbarth meithrin, bydd gofyn i'r rhieni benderfynu pa blentyn a ddylai dderbyn lle'n gyntaf neu a ydynt yn dymuno ystyried lleoliad arall i'w holl blant.

Os oes hawl gyfartal gan blant i le meithrin yng nghategorïau a) i c) uchod, rhoddir blaenoriaeth i'r plentyn sy'n byw agosaf. Caiff hyn ei fesur gan y llwybr

[1] Ystyr plentyn sy'n derbyn gofal yw plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, yn unol ag adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu o dan adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989, ar yr adeg y cyflwynir y cais i ysgol ac y mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau y bydd yn dal i dderbyn gofal ar yr adeg y caiff ei dderbyn i'r ysgol. Plant a oedd yn arfer derbyn gofal: plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach gan eu bod wedi cael eu mabwysiadu, wedi bod yn destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidwadaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

cerdded/teithio byrraf rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrifo'r pellter byrraf.

Ym mhob achos, bydd yn rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad preswyl parhaol y disgybl ar adeg gwneud y cais.

Unwaith bydd cynnig o le mewn ysgol wedi'i wneud, bydd y Cyngor ond yn tynnu'r cynnig hwnnw yn ôl pan fydd lle wedi'i gynnig ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol gan riant (er enghraifft, honiad anwir am breswylio mewn dalgylch) sy'n gwadu cais i blentyn gyda chais cryfach. Ni fydd lle mewn ysgol yn cael ei dynnu yn ôl unwaith bydd plentyn neu berson ifanc wedi dechrau yn yr ysgol, ac eithrio pan fydd lle wedi'i gael drwy dwyll. Wrth benderfynu tynnu'r lle yn ôl, bydd cyfnod y plentyn hwnnw yn yr ysgol yn cael ei ystyried. Pan fydd y lle'n cael ei dynnu yn ôl oherwydd gwybodaeth gamarweiniol, bydd y cais yn cael ei ystyried o'r newydd, a bydd hawl apelio'n cael ei gynnig os caiff lle ei wrthod.

Ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw prif breswylfa'r plentyn a'r rhieni ar y dyddiad cyhoeddedig, h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau eraill ar wahân i drefniadau maethu), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau na'r perthnasau ei ystyried o ran cais am dderbyn i ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb am blentyn, ac mae'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant yn eu tro am ran o'r wythnos ysgol, yna ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos e.e. 3 o 5 niwrnod. Bydd yn ofynnol i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

Ni roddir ystyriaeth i'r ysgol gynradd y mae'r plentyn yn debygol o fynd iddi yn ddiweddarach neu'r cyfnod y mae'r ysgol wedi gwybod am fwriad y rhieni i wneud cais am le yn yr ysgol.

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni cais fydd yn cael eu prosesu yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr. Caiff y rhain eu hystyried yn wythnosol unwaith bydd y dyraniad cychwynnol wedi'i gwblhau a bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol ag argaeledd.

Gan fod addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol, nid oes gan rieni hawl apelio statudol. Os nad ydynt yn llwyddo i gael lle mewn dosbarth meithrin, bydd plant yn cael cynnig lle o fewn dwy filltir i'w man preswylio, lle bynnag y bo hynny'n bosib.

**Nid yw'r ffaith bod plentyn yn mynd i ddosbarth meithrin yn rhoi hawl**

**awtomatig iddo gael lle yn nosbarth derbyn yr un ysgol. Bydd rhaid cyflwyno cais ar wahân i blentyn gael ei dderbyn i ddosbarth derbyn yr ysgol y mae'r rhiant am i'w blentyn ei mynychu.**

Er ei fod yn ddarpariaeth polisi ar wahân, mae'r Cyngor yn cydnabod y gydberthynas rhwng derbyn a chludiant o'r cartref i'r ysgol, ac yn cynghori rhieni i ddarllen polisi teithio o’r cartref i’r ysgol y Cyngor wrth ymgeisio am le mewn ysgol i'w plentyn. Mae'r polisi ar gael yn www.npt.gov.uk

4. **Derbyn i ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol ac ysgolion 'pob oed'**

Y Cyngor Bwrdeistref Sirol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol a gynhelir ac ysgolion 'pob oed' (gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a darpariaeth chweched dosbarth).

Cymeradwyir yr holl dderbyniadau i ysgolion prif ffrwd gan y Swyddog Derbyniadau, Tîm Cefnogi Ysgolion a Theuluoedd. Derbynnir plant i ddosbarthiadau derbyn yn y mis Medi ar ôl eu pedwerydd pen-blwydd. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw gynnig am le mewn ysgol yn cael ei gadw ar gyfer rhieni sy'n dymuno gohirio derbyniad eu plentyn i'r dosbarth Derbyn tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, ni all rhiant ohirio lle'r plentyn y tu hwnt i'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed, na thu hwnt i'r flwyddyn ysgol y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer. Mae plant yn trosglwyddo i addysg uwchradd yn y mis Medi sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn 11 oed.

Mae ffurflenni cais ar gael gan Is-adran Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, y dylai'r rhieni eu llenwi a'u dychwelyd at y Swyddog Derbyniadau, Tîm Cefnogi Plant a Theuluoedd, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA12 1PJ neu gall rhieni wneud cais ar-lein yn **www.npt.gov.uk**.
Caniateir ceisiadau am le oni bai y byddai gwneud hynny’n amharu ar ddarparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau.

Rhoddir blaenoriaeth i'r rhieni hynny sy'n cyflwyno cais am le mewn unrhyw ysgol mewn pryd.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 29 Tachwedd 2024.

Bydd y Cyngor yn anfon Ffurflen Cais am Le at rieni pob disgybl a fydd yn symud o'r naill gyfnod addysgol i'r llall ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, yn ystod tymor yr hydref. Caiff rhieni wybod am y lle mewn addysg uwchradd a ddyrannwyd i'w plentyn ar 3 Mawrth 2025 ac am y lle mewn addysg gynradd ar 16 Ebrill 2025.

Nid yw'r ffaith bod plentyn yn mynd i ddosbarth meithrin yn rhoi hawl awtomatig iddo gael lle yn nosbarth derbyn yr un ysgol.

I blant y mae ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig/CDU a gynhelir gan yr ALl sy'n nodi addysg feithrin brif ffrwd mewn ysgol gymunedol, gwarentir lle iddynt yn yr ysgol honno.

***Meini prawf gorymgeisio o ran addysg gynradd***

Mae gan rieni'r hawl i fynegi dewis a gaiff ei ystyried yn unigol a chydsynnir â hyn lle bynnag y bo modd. Mae rhai ysgolion yn derbyn mwy o geisiadau am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mewn ysgol lle mae gorymgeisio, caiff dewisiadau eu hystyried o hyd ond dilynir y blaenoriaethau a bennwyd gan y Cyngor. Wrth benderfynu ar ba blant i'w derbyn i ysgol, mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf a nodir isod yn y drefn flaenoriaeth a ddangosir - a) yw'r flaenoriaeth uchaf.

Bydd y Cyngor yn derbyn plant hyd at nifer derbyn yr ysgol yn unig ac ni fydd yn torri Rheoliadau Maint Dosbarth Plant sef 30 o blant neu lai, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

a) Plant sy'n derbyn gofal, neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu yn Lloegr yn unol ag adran 22 o Ddeddf Plant 1989.

b) Plant sy'n byw yn nalgylch y dosbarth meithrin y cyflwynir cais amdano.

c) Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn/frawd neu chwaer o oedran ysgol statudol (diffinnir oedran ysgol statudol fel disgyblion sydd rhwng 5 ac 16 oed h.y. disgyblion mewn unrhyw grŵp blwyddyn rhwng, ac yn cynnwys, blwyddyn derbyn i flwyddyn 11) a fydd ar y gofrestr yn yr ysgol y mae'r dosbarth meithrin wedi'i lleoli ynddi pan gânt eu derbyn. Diffinnir "brawd neu chwaer" fel brawd neu chwaer lawn, hanner brawd neu chwaer (h.y. un rhiant a rennir), llysfrodyr neu lyschwiorydd (h.y. plentyn person sy'n cyd-fyw â'r rhiant), brawd neu chwaer maeth neu a fabwysiadwyd. Ym mhob achos, ar adeg cyflwyno'r cais, rhaid i'r brawd neu'r chwaer fod yn byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn neu'r person ifanc. Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. Yn achos genedigaethau lluosog, os nad yw'n bosib cynnig lle i bob plentyn yn yr ysgol, bydd gofyn i'r rhieni benderfynu pa blentyn a ddylai dderbyn lle'n gyntaf neu a ydynt yn dymuno ystyried lleoliad arall i'w holl blant.

d) Mae plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol a ffefrir.

Os oes hawl gyfartal gan blant a phobl ifanc i le mewn ysgol yng nghategorïau a) i ch) uchod, rhoddir blaenoriaeth i'r plentyn sy'n byw agosaf. Caiff hyn ei fesur gan y llwybr cerdded/teithio byrraf mwyaf addas rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrifo'r pellter byrraf.

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni cais a fydd yn cael eu hystyried yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr. Caiff y rhain eu hystyried yn wythnosol unwaith bydd y dyraniad cychwynnol wedi'i gwblhau a bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol ag argaeledd.

Ym mhob achos, bydd rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad preswyl parhaol y disgybl ar adeg gwneud y cais.

Unwaith bydd cynnig o le mewn ysgol wedi'i wneud, bydd y Cyngor ond yn tynnu'r cynnig hwnnw yn ôl pan fydd lle wedi'i gynnig ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol gan riant neu berson ifanc (er enghraifft, honiad anwir am breswylio mewn dalgylch) sy'n gwadu cais i blentyn neu berson ifanc gyda chais cryfach. Ni fydd lle mewn ysgol yn cael ei dynnu'n ôl unwaith bydd plentyn neu berson ifanc wedi dechrau yn yr ysgol ac eithrio pan fydd lle wedi'i gael drwy dwyll. Wrth benderfynu p'un ai i dynnu lle yn ôl, bydd hyd amser y plentyn hwnnw yn yr ysgol yn cael ei ystyried. Pan fydd y lle'n cael ei dynnu yn ôl oherwydd gwybodaeth gamarweiniol, bydd y cais yn cael ei ystyried o'r newydd, a bydd hawl apelio'n cael ei gynnig os caiff lle ei wrthod.

Ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw prif breswylfa'r plentyn a'r rhieni ar y dyddiad cyhoeddedig, h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau eraill ar wahân i drefniadau maethu), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau na'r perthnasau ei ystyried at ddibenion dyrannu lle.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb am blentyn, ac mae'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant yn eu tro am ran o'r wythnos ysgol, ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol, e.e. 3 o 5 niwrnod. Bydd yn ofynnol i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

**Hawl Apelio**

Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu'n ysgrifenedig a fu eu cais yn llwyddiannus. Os gwrthodwyd eu cais, hysbysir rhieni/gofalwyr yn ysgrifenedig fod ganddynt hawl i apelio i Banel Apeliadau Derbyn Annibynnol. Yn achos derbyniadau addysg gynradd, dylid cyflwyno apeliadau erbyn **14 Mai 2025**. Bydd unrhyw benderfyniad gan y Panel yn orfodol ar y Cyngor. Os nad yw'r apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un ysgol eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd, oni bai fod Swyddog Derbyniadau'r Tîm Cefnogi Plant a Theuluoedd yn barnu bod newidiadau arwyddocaol a pherthnasol i'r amgylchiadau.

**Rhestrau Aros**

Bydd y Cyngor yn cadw rhestr aros o ymgeiswyr aflwyddiannus wedi’u blaenoriaethu yn ôl meini prawf gorymgeisio'r Cyngor. Wrth i leoedd gwag godi, cânt eu cynnig ar sail y rhestr flaenoriaeth. Caiff rhestr aros ei chynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y mae ymgeiswyr yn gwneud cais ynddi.

Er ei fod yn ddarpariaeth polisi ar wahân, mae'r Cyngor yn cydnabod y gydberthynas rhwng derbyn a chludiant o'r cartref i'r ysgol, ac yn cynghori rhieni i ddarllen polisi teithio o’r cartref i’r ysgol y Cyngor wrth ymgeisio am le mewn ysgol i'w plentyn. Mae'r polisi ar gael yn www.npt.gov.uk

***Meini prawf gorymgeisio o ran addysg uwchradd***

Mae gan rieni'r hawl i fynegi dewis a gaiff ei ystyried yn unigol a chydsynnir â hyn lle bynnag y bo modd. Mae rhai ysgolion yn derbyn mwy o geisiadau am leoedd na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mewn ysgol lle mae gorymgeisio, caiff dewisiadau eu hystyried o hyd ond dilynir y blaenoriaethau a bennwyd gan y Cyngor.

Wrth benderfynu ar ba blant i'w derbyn i ysgol, mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf a nodir isod yn y drefn flaenoriaeth a ddangosir - a) yw'r flaenoriaeth uchaf.

Bydd y Cyngor yn derbyn hyd at y nifer derbyn a nodir yn unig.

Gall rhieni/gofalwyr wneud cais ar-lein am le yn ysgol y dalgylch neu fynegi dewis am le mewn ysgol arall. Caniateir ceisiadau am le oni bai y byddai gwneud hynny’n amharu ar ddarparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau

Rhoddir blaenoriaeth i'r rhieni hynny sy'n cyflwyno cais am le mewn unrhyw ysgol mewn pryd.

a) Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu yn Lloegr yn unol ag adran 22 o Ddeddf Plant 1989.

b) Plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgol gynradd bartner sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol y cyflwynir cais amdani.[2]

c) Plant a phobl ifanc eraill sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y cyflwynir cais amdani ond nid ydynt yn mynychu ysgol gynradd bartner.

---

[2]Mae'r ysgol gynradd bartner yn cyfeirio at yr ysgol y cyflwynir cais amdani. Gweler paragraff 8 ar gyfer y diffiniad o ysgol gynradd bartner.

ch) Plant a phobl ifanc y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn a fydd ar gofrestr yr ysgol pan gânt eu derbyn. Diffinnir "brawd neu chwaer" fel brawd neu chwaer lawn, hanner brawd neu chwaer (h.y. un rhiant a rennir), llysfrodyr neu lyschwiorydd (h.y. plentyn person sy'n cyd-fyw â'r rhiant), brawd neu chwaer maeth neu a fabwysiadwyd. Ym mhob achos, ar adeg cyflwyno'r cais rhaid i'r brawd neu'r chwaer fyw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn neu'r person ifanc. Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais. Yn achos genedigaethau lluosog, os nad yw'n bosib cynnig lle i bob plentyn yn y dosbarth meithrin, bydd gofyn i rieni benderfynu pa blentyn a ddylai dderbyn lle'n gyntaf neu a ydynt yn dymuno ystyried lleoliad arall i'w holl blant.

e) Plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgol gynradd bartner ond sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol y cyflwynir cais amdani. [3]

   Os oes hawl gyfartal gan blant a phobl ifanc i le mewn ysgol yng nghategorïau a) i d) uchod, rhoddir blaenoriaeth i'r plentyn sy'n byw agosaf. Caiff hyn ei fesur gan y llwybr cerdded/teithio byrraf mwyaf addas rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrifo'r pellter byrraf.

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni cais fydd yn cael eu hystyried yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr. Caiff y rhain eu hystyried yn wythnosol unwaith bydd y dyraniad cychwynnol wedi'i gwblhau a bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol ag argaeledd.
Ym mhob achos, bydd yn rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad preswyl parhaol y disgybl ar adeg gwneud y cais.

Unwaith bydd cynnig o le mewn ysgol wedi'i wneud, bydd y Cyngor ond yn tynnu'r cynnig hwnnw yn ôl pan fydd lle wedi'i gynnig ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol gan riant neu berson ifanc (er enghraifft, honiad anwir am breswylio mewn dalgylch) sy'n gwadu cais i blentyn neu berson ifanc gyda chais cryfach. Ni fydd lle mewn ysgol yn cael ei dynnu'n ôl unwaith bydd plentyn neu berson ifanc wedi dechrau yn yr ysgol ac eithrio pan fydd lle wedi'i gael drwy dwyll. Wrth benderfynu p'un ai i dynnu lle yn ôl, bydd hyd amser y plentyn hwnnw yn yr ysgol yn cael ei ystyried. Pan fydd y lle'n cael ei dynnu yn ôl oherwydd gwybodaeth gamarweiniol, bydd y cais yn cael ei ystyried o'r newydd, a bydd hawl apelio'n cael ei gynnig os caiff lle ei wrthod.

Ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw prif breswylfa'r plentyn a'r rhieni ar y dyddiad

---

[3] Mae'r ysgol gynradd bartner yn cyfeirio at yr ysgol y cyflwynir cais amdani.
Gweler paragraff 8 ar gyfer y diffiniad o ysgol gynradd bartner.

cyhoeddedig, h.y. lle maent yn byw fel arfer ac yn rheolaidd. Os yw plentyn yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau eraill ar wahân i drefniadau maethu), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau na'r perthnasau ei ystyried at ddibenion dyrannu lle.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb am blentyn/berson ifanc, ac mae'r plentyn/person ifanc yn byw gyda'r ddau riant yn eu tro am ran o'r wythnos ysgol, yna ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol, e.e. 3 o 5 niwrnod. Bydd yn ofynnol i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

**Hawl Apelio**

Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu'n ysgrifenedig a fu eu cais yn llwyddiannus. Os gwrthodwyd eu cais, hysbysir rhieni/gofalwyr yn ysgrifenedig fod ganddynt hawl i apelio i Banel Apeliadau Derbyn Annibynnol. Yn achos derbyniadau addysg uwchradd, dylid cyflwyno apeliadau erbyn **28 Mawrth 2025**. Bydd unrhyw benderfyniad gan y panel yn orfodol ar y Cyngor. Os nad yw'r apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un ysgol eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd oni bai fod Swyddog Derbyniadau'r Tîm Cefnogi Plant a Theuluoedd yn barnu bod newidiadau arwyddocaol a pherthnasol i'r amgylchiadau.

Bydd y Cyngor yn cadw rhestr aros o ymgeiswyr aflwyddiannus wedi'u blaenoriaethu yn ôl meini prawf gorymgeisio'r Cyngor. Wrth i leoedd gwag godi, cânt eu cynnig ar sail y rhestr flaenoriaeth. Caiff rhestr aros ei chynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y mae ymgeiswyr yn gwneud cais ynddi.

Ni fydd yn rhaid i'r ALl gydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegwyd fel arall ond yn unol â'i drefniadau'n unig.

Er ei fod yn ddarpariaeth polisi ar wahân, mae'r Cyngor yn cydnabod y gydberthynas rhwng derbyn a chludiant o'r cartref i'r ysgol, ac yn cynghori rhieni i ddarllen polisi teithio o'r cartref i'r ysgol y Cyngor wrth wneud cais am le mewn ysgol i'w plentyn. Mae'r polisi ar gael yn www.npt.gov.uk

5. **Derbyn i'r Chweched Dosbarth**

Mae dau chweched dosbarth yn y fwrdeistref sirol - chweched dosbarth Cymraeg mewn ysgol gymunedol

yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, y mae'r Cyngor yn awdurdod derbyn ar ei chyfer, a chweched dosbarth a gynorthwyir yn wirfoddol yn Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth San Joseff, y mae corff llywodraethu'r ysgol yn

awdurdod derbyn ar ei chyfer.

I bobl ifanc y mae ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n nodi darpariaeth chweched dosbarth benodol, gwarentir lle iddynt yn yr ysgol honno.

– ***Meini prawf gorymgeisio (chweched dosbarth Cymraeg)***

Mae gan rieni a disgyblion yr hawl i fynegi dewis a gaiff ei ystyried yn unigol a chydsynnir â hyn lle bynnag y bo modd.  Os bydd nifer y ceisiadau am le yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff dewisiadau eu hystyried o hyd ond dilynir y blaenoriaethau a bennwyd gan y Cyngor.  Wrth benderfynu ar ba blant i'w derbyn i'r chweched dosbarth, mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf a nodir isod yn y drefn flaenoriaeth a ddangosir - a) yw'r flaenoriaeth uchaf.  Ni fydd y Cyngor fel arfer yn derbyn mwy o ddisgyblion i'r chweched dosbarth na'r nifer derbyn a nodir.

a) Pobl ifanc sy'n derbyn gofal, neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu yn Lloegr yn unol ag adran 22 o Ddeddf Plant 1989.

b) Pobl ifanc y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn a fydd ar gofrestr y chweched dosbarth pan gânt eu derbyn.  Diffinnir "brawd neu chwaer" fel brawd neu chwaer lawn, hanner brawd neu chwaer (h.y. un rhiant a rennir), llysfrodyr neu lyschwiorydd (h.y. plentyn person sy'n cydfyw â rhiant), brawd neu chwaer maeth neu a fabwysiadwyd.  Ym mhob achos, ar adeg cyflwyno'r cais, rhaid i'r brawd neu'r chwaer fyw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn neu'r person ifanc.  Dylid nodi perthynas unrhyw frodyr neu chwiorydd yn glir yn y cais.  Yn achos genedigaethau lluosog, os nad yw'n bosib cynnig lle i bob person ifanc yn y chweched dosbarth, bydd gofyn i rieni benderfynu pa berson ifanc a ddylai dderbyn lle'n gyntaf neu a ydynt yn dymuno ystyried lleoliad arall i'r holl bobl ifanc.

Os yw pobl ifanc â hawl gyfartal i le yn y chweched dosbarth yng nghategorïau a) a b) uchod, yna rhoddir blaenoriaeth i'r person ifanc sy'n byw agosaf.  Caiff hyn ei fesur gan y llwybr cerdded/teithio byrraf mwyaf addas rhwng y cartref a'r chweched dosbarth.  Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrifo'r pellter byrraf.

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni cais fydd yn cael eu hystyried yn rownd gyntaf dyrannu lleoedd.  Bydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr.  Caiff y rhain eu hystyried yn wythnosol unwaith bydd y dyraniad cychwynnol wedi'i gwblhau a bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol ag argaeledd.

Ym mhob achos, bydd yn rhaid darparu tystiolaeth o gyfeiriad preswyl parhaol y disgybl ar adeg gwneud y cais os gofynnir amdani.

Unwaith bydd cynnig o le mewn ysgol wedi'i wneud, bydd y Cyngor ond yn tynnu'r cynnig hwnnw yn ôl pan fydd lle wedi'i gynnig ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol gan riant neu berson ifanc (er enghraifft, honiad anwir am breswylio mewn dalgylch) sy'n gwadu cais i blentyn gyda chais cryfach. Ni fydd lle mewn ysgol yn cael ei dynnu'n ôl unwaith bydd plentyn neu berson ifanc wedi dechrau yn yr ysgol ac eithrio pan fydd lle wedi'i gael drwy dwyll. Wrth benderfynu p'un ai i dynnu lle yn ôl, bydd hyd amser y plentyn hwnnw yn yr ysgol yn cael ei ystyried. Pan fydd y lle'n cael ei dynnu yn ôl oherwydd gwybodaeth gamarweiniol, bydd y cais yn cael ei ystyried o'r newydd, a bydd hawl apelio'n cael ei gynnig os caiff lle ei wrthod.

Ystyrir y cyfeiriad cartref fel cyfeiriad y person ifanc ynghyd â phrif breswylfa'r rhieni (neu'r person ifanc ar ei ben ei hun os yw'n byw ar ei ben ei hun) ar y dyddiad cyhoeddedig h.y. lle maent yn byw fel arfer. Os yw person ifanc yn byw gyda ffrindiau neu berthnasau (am resymau eraill ar wahân i drefniadau maethu), ni chaiff cyfeiriad y ffrindiau na'r perthnasau ei ystyried at ddibenion dyrannu lle.

Pan fo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb am berson ifanc, ac mae'r person ifanc yn byw gyda'r ddau riant yn eu tro am ran o'r wythnos ysgol, yna ystyrir mai cyfeiriad y cartref yw'r cyfeiriad lle mae'r person ifanc yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos, e.e. 3 o 5 niwrnod. Bydd gofyn i rieni a phobl ifanc sy'n byw'n annibynnol ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad y maent am iddo gael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

Os yw rhiant neu berson ifanc yn anfodlon ar ganlyniad y cais am chweched dosbarth penodol, gellir cyflwyno apêl i'r Panel Apeliadau Derbyn Annibynnol erbyn **28 Mawrth 2025**. Bydd unrhyw benderfyniad gan y panel yn orfodol ar y Cyngor. Os nad yw'r apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un chweched dosbarth eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd oni bai fod Swyddog Derbyniadau'r Tîm Cefnogi Plant a Theuluoedd yn barnu bod newidiadau arwyddocaol a pherthnasol i'r amgylchiadau.

Er ei fod yn ddarpariaeth polisi ar wahân, mae'r Cyngor yn cydnabod y gydberthynas rhwng derbyn a chludiant o'r cartref i'r ysgol, ac yn cynghori rhieni i ddarllen polisi teithio o'r cartref i'r ysgol y Cyngor wrth wneud cais am le mewn ysgol i'w plentyn. Mae'r polisi ar gael yn www.npt.gov.uk

## 6. Derbyn yn ystod y flwyddyn academaidd

Penderfynir ar geisiadau i drosglwyddo plant a phobl ifanc o un ysgol i'r llall ar adegau ar wahân i'r oed trosglwyddo arferol drwy ddefnyddio'r trefniadau uchod.

Mae ffurflenni cais ar gael gan Is-adran Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, y dylai rhieni (neu berson ifanc yn achos cais ar gyfer y chweched dosbarth) eu cwblhau a'u dychwelyd at y Swyddog Derbyniadau, Tîm Cefnogi Plant a Theuluoedd, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael 'dyddiad gadael' gan yr ysgol lle maent ar y gofrestr ar hyn o bryd a 'dyddiad dechrau' yn yr ysgol dderbyn. Nid yw symud plant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn academaidd yn cael ei argymell; oni nodir yn wahanol, fe'i derbynnir i'r ysgol newydd ar ddechrau'r tymor canlynol.

Bydd trosglwyddo i ysgol yn y fwrdeistref sirol o awdurdod arall, neu newid ysgol oherwydd newid cyfeiriad, yn cael ei awdurdodi cyn gynted ag y bo modd, ond o fewn 15 niwrnod ysgol neu 28 niwrnod calendr, p'un bynnag sydd gyntaf.

Caiff plant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo oherwydd bod ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig eu derbyn i'r ysgol a enwir cyn gynted â phosib o fewn 15 niwrnod gwaith.

## 7. **Derbyn y tu allan i'r grŵp oedran arferol**

Er y bydd y rhan fwyaf o blant yn cael eu derbyn i ysgol gyda'u grŵp oedran cronolegol eu hunain, o bryd i'w gilydd mae rhieni'n chwilio am leoedd y tu allan i'w grŵp oedran arferol ar gyfer plant dawnus a thalentog, neu'r rheini sydd wedi profi problemau neu wedi colli rhan o flwyddyn, yn aml oherwydd salwch. Er na fyddai'n briodol fel arfer i blentyn gael ei roi mewn grŵp blwyddyn nad yw'n cyd-fynd â'i oedran cronolegol, bydd y Cyngor yn ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus ac yn gwneud penderfyniadau ar sail amgylchiadau pob achos ac mewn ymgynghoriad â'r rhieni a'r ysgol, ac yn benodol mewn perthynas â'r hyn sydd fwyaf buddiol i'r plentyn.

Rhoddir sylw dyladwy hefyd i adroddiad y Seicolegydd Addysg pan fydd ar gael, a bydd angen sefydlu rhesymau clir er mwyn gwneud penderfyniad o'r fath. Os penderfynir bod sail i ystyried cais 'y tu allan i'r flwyddyn', mae gan rieni y gwrthodwyd cais am le mewn ysgol iddynt hawl statudol i apelio. Fodd bynnag, nid oes ganddynt hawl i apelio os cynigiwyd lle iddynt, ond nid yw'r lle yn y grŵp blwyddyn a ddymunir.

## **8. Nifer derbyn a maint dosbarthiadau – ysgolion cymunedol**

Y nifer derbyn yw nifer y disgyblion y gall y Cyngor ei dderbyn i ysgol.  Mae gan bob ysgol nifer derbyn a gyfrifir gan ddefnyddio asesiad 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru' Llywodraeth Cymru.  Ni ellir gwrthod lle mewn ysgol oni bai fod y nifer derbyn wedi'i gyrraedd (atodiad 5).

Mae'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth nad yw dosbarthiadau sy'n cynnwys disgyblion y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 5, 6 a 7 oed yn ystod y flwyddyn ysgol yn cynnwys mwy na 30 o ddisgyblion heblaw am 'ddisgyblion eithriedig' fel a nodir gan y Rheoliadau.  Y grŵp blwyddyn perthnasol yw'r grŵp y mae plant a phobl ifanc fel arfer yn cael eu derbyn iddo, h.y. dosbarth derbyn ar gyfer ysgolion cynradd a Bl7 ar gyfer ysgolion uwchradd.

## 9. Dalgylchoedd ac ysgolion partner - ysgolion cymunedol

At ddibenion derbyn i ysgolion cymunedol, diffinnir dalgylch fel yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan ysgol, fel a bennir gan y Cyngor.

At ddiben derbyn i ysgolion cymunedol, diffinnir y term ysgol 'bartner'  fel ysgol y mae ganddi ddalgylch sy'n gyffredin ag ysgol arall yn yr un categori, e.e. ysgol gynradd gymunedol Saesneg ac ysgol uwchradd gymunedol Saesneg neu ysgol gynradd gymunedol Gymraeg ac ysgol uwchradd gymunedol Gymraeg (ac eithrio ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol). Mae rhestr ddangosol ar 1 Medi 2022 ynghlwm fel atodiad 4.

Mae copïau o fapiau ardaloedd dalgylch ysgolion ar gael gan y Swyddog Derbyniadau, Tîm Cefnogi Plant a Theuluoedd.

## 10. Trosolwg o'r Broses Dderbyn - Ysgolion Cymunedol

Mae'n **rhaid** i bob cais am le mewn ysgol (gan gynnwys chweched dosbarth) yn y fwrdeistref sirol gael ei gyflwyno ar y ffurflen briodol i'r Cyngor ac **nid** i'r ysgol. Gall rhieni gyflwyno cais ar-lein yn **www.npt.gov.uk**

Nid oes gan benaethiaid yr awdurdod i dderbyn plant i'w hysgolion.  Rhaid cyflwyno ceisiadau i'r awdurdod derbyn, sef y Cyngor/yr ALl ar gyfer ysgolion cymunedol.

Bydd y Cyngor yn anfon ffurflen cais am le a nodiadau trefniadau derbyn cysylltiedig at holl rieni plant sy'n hysbys i'r awdurdod ac sy'n byw yn y fwrdeistref sirol yn ystod tymor yr hydref cyn dechrau yn yr ysgol ym mis Medi'r flwyddyn academaidd ganlynol.

Dylai rhieni ofyn am ffurflen cais am le, ac ar ôl ei chwblhau, ei dychwelyd at y Swyddog Derbyniadau neu gyflwyno cais ar-lein, erbyn y dyddiad a nodir ar y trefniadau derbyn.

Bydd y swyddfa ganolog yn hysbysu rhieni drwy lythyr neu e-bost fel y bo'n briodol, am ganlyniad pob cais am le ar y dyddiad a roddir yn y trefniadau derbyn.

Dylai rhieni sy'n fodlon ar y lleoliad a gynigir gadarnhau eu bod yn derbyn y

cynnig yn ysgrifenedig i'r Cyngor neu drwy'r wefan derbyniadau ysgolion. Dyrennir lleoedd gwag i blant a phobl ifanc y mae eu rhieni wedi cyflwyno cais am le o flaen y rhai nad ydynt wedi derbyn y cynnig cychwynnol o le yn ffurfiol.

Mae gan rieni nad ydynt yn fodlon ar y lle a gynigir yr hawl i apelio.

Bydd y llythyr a anfonir yn cynnwys gwybodaeth am apelio. Caiff apeliadau eu clywed gan Banel Apeliadau Annibynnol a sefydlwyd yn benodol at ddiben clywed apeliadau.

Bydd ceisiadau am dderbyn i'r grŵp oed perthnasol a gyflwynir ar y dyddiad cau gweinyddol, neu cyn hynny, yn cael eu prosesu gyda'i gilydd. Yn hyn o beth, nid oes unrhyw fantais i gyflwyno'r cais am dderbyn yn gynnar. Bydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau'n cael eu prosesu'n wythnosol.

Ni phennir derbyniadau ar sail meini prawf dethol sy'n cynnwys sefyll profion, gweld adroddiadau ysgol neu gyfweld â disgyblion, gyda rhieni neu hebddynt, at ddiben asesu gallu neu ddawn.

Lle mae'r ceisiadau am le yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, dyrennir y lleoedd yn ôl meini prawf gorymgeisio'r Cyngor.

Bydd y Cyngor yn cadw rhestr aros o ymgeiswyr aflwyddiannus wedi'u blaenoriaethu yn ôl meini prawf gorymgeisio'r Cyngor. Pan fydd lleoedd ar gael, cânt eu cynnig ar sail y rhestr flaenoriaeth. Caiff rhestr aros ei chynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y mae ymgeiswyr yn cyflwyno cais ynddi.

**Hawl Apelio**

Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu'n ysgrifenedig a fu eu cais yn llwyddiannus. Os gwrthodwyd eu cais, hysbysir rhieni/gofalwyr yn ysgrifenedig fod ganddynt hawl i apelio i Banel Apeliadau Derbyn Annibynnol. Yn achos derbyniadau addysg gynradd, dylid cyflwyno apeliadau erbyn **14 Mai 2025**. Bydd unrhyw benderfyniad gan y panel yn orfodol ar y Cyngor. Os nad yw'r apêl yn llwyddiannus, ni chaiff ceisiadau pellach am le yn yr un ysgol eu hystyried ar gyfer yr un flwyddyn academaidd oni bai fod Swyddog Derbyniadau'r Tîm Cefnogi Plant a Theuluoedd yn barnu bod newidiadau arwyddocaol a pherthnasol i'r amgylchiadau.

Ni fydd hawl awtomatig gan blant sy'n mynd i ddosbarth meithrin dderbyn addysg amser llawn yn yr un ysgol. Yn yr un modd, nid oes gan blant sy'n trosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd hawl awtomatig i gael eu derbyn i unrhyw ysgol [4].

[4] Nid oes yn rhaid i blant a dderbynnir i addysg gynradd mewn ysgol 'pob oed' gyflwyno cais am le yn yr un ysgol wrth drosglwyddo i addysg uwchradd.

Ni fydd dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â'r dewis a fynegir oni bai ei fod yn unol â'i drefniadau.

Mae trefniadau derbyn ar wahân yn berthnasol i ddisgyblion y mae gan y Cyngor ddatganiad o anghenion addysgol arbennig/CDU ar eu cyfer. Mae'n rhaid i ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig gael eu derbyn i'r ysgol a nodir ar eu datganiad/CDU.

Mae'n rhaid i blant sy'n derbyn gofal, neu a oedd yn arfer derbyn gofal, gael eu blaenoriaethu mewn achosion o orymgeisio, ar ôl plant â datganiad o anghenion addysgol.

## 11. **Derbyn i Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol (h.y. ysgolion ffydd)**

Er bod ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y. ysgolion ffydd) yn awdurdodau derbyn hefyd, drwy ei system cyflwyno cais ar-lein, mae'r Cyngor yn cynorthwyo gyda'r broses dderbyn ar gyfer Ysgol Gatholig San Joseff a'r Ganolfan Chweched Dosbarth. (Mae hyn yn berthnasol i geisiadau am le ym mlwyddyn 7 yn unig). Penderfynir ar geisiadau i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol drwy gyfeirio at y meini prawf derbyn a bennwyd gan y corff llywodraethu. (Cyrff llywodraethu ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol sy'n gyfrifol am bennu eu trefniadau derbyn hwy)

*Atodiad 1*

**Amserlen Ddigwyddiadau ar gyfer**
**Ysgolion Cymunedol**
**Derbyniadau i Addysg Uwchradd a Chweched Dosbarth 2025/26**

***7 Hydref 2024***

Ffurflenni cais/prosbectws ysgol/llawlyfr gwybodaeth i rieni yn cael eu dosbarthu i rieni. Mae gan rieni pobl ifanc sy'n dechrau mewn ysgol newydd (Blwyddyn 7) o leiaf 6 wythnos i wneud cais am ysgol o'u dewis.

**Dylid dychwelyd ffurflenni cais at:**
Mrs H Lewis, Swyddog Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ

***29 Tachwedd 2024***

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais am le

Prosesu ceisiadau

***3 Mawrth 2025***

Rhoi gwybod i rieni ac ysgolion am leoedd uwchradd a ddyrennir i ddisgyblion prif ffrwd.

***28 Mawrth 2025***

Apeliadau yn erbyn gwrthod lle

*Atodiad 2*

**Amserlen Ddigwyddiadau ar gyfer**
**Ysgolion Cymunedol**
**Derbyniadau i Addysg Gynradd 2025/26**

***7 Hydref 2024***

Ffurflenni cais/prosbectws ysgol, llawlyfr gwybodaeth i rieni'n cael eu dosbarthu i rieni. Mae gan rieni plant sy'n dechrau mewn ysgol newydd (Derbyn) o leiaf 6 wythnos i wneud cais am le mewn ysgol o'u dewis.

**Dylid dychwelyd ffurflenni cais at:**
Mrs H Lewis, Swyddog Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ

***29 Tachwedd 2024***

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais am le
Prosesu ceisiadau

***16 Ebrill 2025***

Rhoi gwybod i rieni ac ysgolion am leoedd Cynradd a ddyrennir i ddisgyblion prif ffrwd.

***14 Mai 2025***

Apeliadau yn erbyn gwrthod lle

*atodiad 3*

# <u>Amserlen Ddigwyddiadau ar gyfer<br>Ysgolion Cymunedol<br>Derbyniadau i Ddosbarthiadau Meithrin 2025/26</u>

***<u>7 Hydref 2024</u>***

**Dosbarthu ffurflenni cais i rieni.**

**Dylid dychwelyd ffurflenni cais at:**
Mrs H Lewis, Swyddog Derbyniadau Ysgolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Canolfan Ddinesig Port Talbot, Port Talbot SA13 1PJ

***<u>14 Mawrth 2025</u>***

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais am le
Prosesu ceisiadau

***<u>16 Mai 2025</u>***

Rhoi gwybod i rieni ac ysgolion am ddyraniad lleoedd meithrin.

*atodiad 4*

# Ysgolion Cymunedol Partner
# (Rhestr ddangosol ar 01/09/22)

| **YSGOLION CYMUNEDOL PARTNER** | |
|---|---|
| **Uwchradd** | Cynradd |
| **CEFN SAESON** | Ysgol Gynradd Crynallt, Ysgol Gynradd y Gnoll, Ysgol Gynradd Melin, Ysgol Gynradd Tonnau. |
| **CWMTAWE** | Ysgol Gynradd Alltwen, Ysgol Gynradd Godre'r-graig, Ysgol Gynradd Llangiwg, Ysgol Gynradd y Rhos, Ysgol Gynradd Rhydyfro, Ysgol Gynradd Tai'rgwaith |
| **YSGOL BAE BAGLAN** | Ysgol Gynradd Awel y Môr, Ysgol Carreg Hir, Ysgol Gynradd Baglan, Ysgol Gynradd Blaenbaglan, Ysgol Gynradd Sandfields, Ysgol Gynradd Tywyn. |
| **DŴR Y FELIN** | Ysgol Gynradd Abbey, Ysgol Gynradd Blaenhonddan, Ysgol Gynradd Coedffranc, Ysgol Gynradd Crymlyn, Ysgol Gynradd Waunceirch. |
| **YSGOL CWM BROMBIL** | Ysgol Gynradd Central, Ysgol Gynradd Coed Hirwaun, Ysgol Gynradd Cwmafan, Ysgol Gynradd Eastern, Ysgol Gynradd Croeserw, Ysgol Gynradd Cymer Afan, Ysgol Gynradd Glyncorrwg, Ysgol Gynradd Pen Afan. |
| **LLANGATWG** | Ysgol Gynradd Blaendulais, Ysgol Gynradd Blaengwrach, Ysgol Gynradd Catwg, Ysgol Gynradd Cilffriw, Ysgol Gynradd y Creunant, Ysgol Gynradd Cwmnedd, Ysgol Gynradd Maesmarchog, Ysgol Gynradd Ynysfach. |
| **Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur** | YGG Blaendulais, YGG Castell-nedd, YGG Cwmllynfell, YGG Cwmnedd, YGG Gwaun Cae Gurwen, YGG Pontardawe, YGG Rhosafan, YGG Trebannws, YGG Tyle’r Ynn, YGG Tregeles. |

**DS. Nid yw mynd i ysgol bartner yn sicrhau lle yn yr ysgol a ffefrir nac yn atal rhieni rhag cyflwyno cais am ysgol arall o'u dewis.**

**Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol sy'n destun trefniadau derbyn ar wahân.**

# Nifer Derbyn[5]
# Medi 2023

| Enw'r ysgol | Cyfnod Cynradd |
|---|---|
| | Nifer Derbyn |
| Ysgol Gynradd Abbey | 60 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henadur Davies | 59 |
| Ysgol Gynradd Alltwen | 34 |
| Ysgol Gynradd Awel y Môr | 42 |
| Ysgol Gynradd Baglan | 35 |
| Ysgol Gynradd Blaenbaglan | 40 |
| Ysgol Gynradd Blaendulais | 23 |
| Ysgol Gynradd Blaengwrach | 20 |
| Ysgol Gynradd Blaenhonddan | 32 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bryncoch | 31 |
| Ysgol Gynradd Catwg | 29 |
| Ysgol Gynradd Central | 55 |
| Ysgol Gynradd Cilffriw | 30 |
| Ysgol Gynradd Coed Hirwaun | 22 |
| Ysgol Gynradd Coedffranc | 53 |
| Ysgol Gynradd y Creunant | 16 |
| Ysgol Gynradd Croeserw | 25 |
| Ysgol Gynradd Crymlyn | 15 |
| Ysgol Gynradd Crynallt | 63 |
| Ysgol Gynradd Cwmafan | 60 |
| Ysgol Gynradd Cwmnedd | 30 |
| Ysgol Gynradd Cymer Afan | 12 |
| Ysgol Gynradd Eastern | 26 |
| Ysgol Gynradd Glyncorrwg | 16 |
| Ysgol Gynradd y Gnoll | 48 |
| Ysgol Gynradd Godre'r-graig | 23 |
| Ysgol Gynradd Llangiwg | 21 |
| Ysgol Gynradd Maesmarchog | 16 |
| Ysgol Gynradd Melin | 34 |
| Ysgol Gynradd Pen Afan | 18 |
| Ysgol Gynradd y Rhos | 21 |
| Ysgol Gynradd Rhydyfro | 24 |
| Ysgol Gynradd Sandfields | 53 |
| Ysgol Fabanod San Joseff | 43 |
| Ysgol Iau San Joseff | 39 |
| Ysgol Gynradd San Joseff | 29 |

[5] Cynhwysir niferoedd derbyn i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol (h.y. ysgolion ffydd).

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Gatholig St Therese | 28 |
| Ysgol Gynradd Tairgwaith | 21 |
| Ysgol Gynradd Tonnau | 30 |
| Ysgol Gynradd Tywyn | 52 |
| Ysgol Gynradd Waunceirch | 30 |
| Ysgol Bae Baglan - Cyfnod Cynradd | 41 |
| Ysgol Gynradd Ynysfach | 25 |
| Ysgol Carreg Hir | 60 |
| Ysgol Cwm Brombil – Cyfnod Cynradd | 29 |
| Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur - Cyfnod Cynradd | 28 |
| YGG Blaendulais | 17 |
| YGG Castell-nedd | 48 |
| YGG Cwm Nedd | 26 |
| YGG Gwauncaegurwen | 29 |
| YGG Pontardawe | 52 |
| YGG Rhosafan | 62 |
| YGG Tyle'r Ynn | 35 |
| YGG Cwmllynfell | 17 |
| YGG Trebannws | 21 |
| YGG Tregeles | 30 |

| **Enw'r ysgol** | Cyfnod Uwchradd | **Chweched Dosbarth** |
|---|---|---|
| | **Nifer Derbyn** | **Nifer Derbyn** |
| Ysgol Gyfun Cefn Saeson | 184 | |
| Ysgol Gymunedol Cwmtawe | 256 | |
| Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin | 220 | |
| Ysgol Cwm Brombil - Cyfnod Uwchradd | 210 | |
| Ysgol Gymunedol Llangatwg | 233 | |
| Ysgol Gatholig a Chanolfan Chweched Dosbarth San Joseff | 144 | 143 |
| Ysgol Bae Baglan - Cyfnod Uwchradd | 220 | |
| Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur | 240 | 130 |